

## EVANS, GRIFFITH, ac OAKELEY (TEULUOEDD), Tanybwllch, Maentwrog, Sir Feirionnydd.

Yr oedd teulu Tanybwllch (neu Bwlch Coed y Dyffryn), Maentwrog, yn hawlio disgyn o Gollwyn ap Tangno. Yn ôl yr achau yr oedd ROBERT AB IFAN, gŵr y mae ei ewyllys wedi ei dyddio 24 Awst 1541, yn cynrychioli'r 12fed genhedlaeth. Fel eraill yng ngorllewin sir Feirionnydd yr oedd iddo gysylltiad ag **Osbrwn Wyddel**, gan fod ei wraig Annes yn ferch Nicholas ap Thomas ap Dafydd ab Ifan ab Einion ab Osbrwn. Gwraig ei fab, EVAN AP ROBERT, oedd Gwen, merch **Humphrey ap Maredudd ap Evan ap Robert**, Cesailgyfarch, Sir Gaernarfon, a'u mab hwy, ROBERT, oedd, y mae'n debyg, y cyntaf i ddefnyddio'r cyfenw Evans - ROBERT EVANS; ei wraig ef oedd Elizabeth, merch **John Wynn ap Cadwaladr**, Rhiwlas, a'i aer oedd EVAN EVANS, siryf Meirionnydd yn 1634, a briododd Catherine, merch **Morris ap Robert Wynn**; Glyn(cywarch). Derbyniwyd ROBERT EVANS, mab Evan a Catherine Evans, i Goleg S. Ioan, Caergrawnt, 20 Mai 1633, yn 18 oed. Priododd ef Lowry, ferch ac aeres Ffoulk Prys (bu farw 1624), Tyddyn Du, Maentwrog - hyhi, felly, yn wyes i **Edmwnd Prys**, archddiacon Meirionnydd - a mab iddynt oedd yr EVAN EVANS (bu farw 1680), a briododd Jonet, ferch John Vaughan, Cefn Bodig. Aer y briodas rhwng Evan Evans a Jonet (Vaughan) oedd CATHERINE, a ddaeth yn wraig ROBERT GRIFFITH (bu farw 1729), Bach y Saint, Sir Gaernarfon; gadawodd hwnnw ei gartref ym mhlwyf Ynyscynhaearn ac ymsefydlu yn Tanybwllch. Aer Robert Griffith a Catherine (Evans) oedd IFAN GRIFFITH (1688 - 1735). (Chwaer i Ifan Griffith, sef Gwen, oedd gwraig **Lewis Anwyl**, ficer Abergele, awdur a chyfieithydd, a brawd iddo oedd Owen Griffith (bu farw 1728), rheithor Llanfrothen.)

Aer Ifan Griffith, trwy ei wraig gyntaf, Jane, merch ac aeres Thomas Meyrick, Berthlwyd, Ffestiniog, oedd ROBERT GRIFFITH (1717 - 1750), siryf Meirionnydd yn 1742, a briododd Ann, merch Thomas Lloyd Anwyl, Hendremur, Llandecwyn, a dyfod yn dad EVAN GRIFFITH, a ddewiswyd yn siryf Meirionnydd yn 1770, ac a briododd ei gyfnither Mary, hithau'n un o Anwyliad Hendremur, gan adael aeres, MARGARET (bu farw 1809), a briododd WILLIAM OAKELEY (1750 - 1811), mab William Oakeley, Forton, sir Stafford, offeiriad. Aer William Oakeley a Margaret (Griffith) oedd WILLIAM GRIFFITH OAKELEY (1790 - 1835), a fu farw heb etifedd ac a ddilynwyd gan un o ddisgynyddion Syr Charles Oakeley, barwnig, llywiawdr Madras, gweler *D.N.B.*, sef WILLIAM EDWARD OAKELEY (1828 - 1912), gŵr y bu iddo lawer i'w wneuthur â chwareli llechi Blaenau Ffestiniog.

Ceir cyfeiriadau mynych yng ngwaith y beirdd at rai o aelodau teulu Tanybwllch - e.e. gan **John Davies** ('Siôn Dafydd Lâs'), **Huw Morus**, Evan Williams, **John Prichard Prys**, ac **Ellis Rowland**, Harlech. Gwelir hefyd fod cysylltiad rhyngddynt a rhai offeiriad adnabyddus. Gellir yma nodi i Mary Anwyl (uchod), gweddw Ifan Griffith (uchod), ailbriodi a dyfod yn wraig John Griffith, rheithor Ffestiniog, ac i John Griffith, wedi ei marw hi, briodi Eleanor, merch David Morris, yntau'n rheithor Ffestiniog, a chael David Griffith, caplan carchar Bimmares, Ann, a briododd Robert Williams, meddyg, Amlwch, a JANE (bu farw 1852), a briododd Thomas Love Peacock (1785 - 1866), awdur *The Misfortunes of Elphin*, a gweithiau eraill - gweler *D.N.B.* Bu MARY ELLEN, merch T. L. a Jane Peacock, yn briod ddwywaith, yr eildro â George Meredith (1828 - 1909), nofelydd - gweler *D.N.B.*

### Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

### Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914)

G. J. Williams, *Hanes plwyf Ffestiniog o'r cyfnod boreuaf* (Wrexham 1882)

E. Breese, *Kalendars of Gwynedd â€* (1873)

Archifau LIGC: [NLW MS 1807E](#), [NLW MS 1893E](#), [NLW MS 4458E](#), [NLW MS 14538](#) (catalog 'Llawysgrif Tanybwllch')

*Llawysgrifau Samuel Holland yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [Tan-y-bwlch](#)"

Wikidata: [Q20733051](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn ôl gŵir  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government